

Ffurflen Gais

Llenwch mewn priflythrennau os gwelwch yn dda

Llenwch y ffurflen hon a'i ebostio at: applications@wrexhamopen.com
erbyn hanner nos 16 Medi 2018

Sicrhewch fod y wybodaeth a gyflwynwch gyda'ch ffurflen yn gywir ac yn gyflawn gan mai dyma fydd y wybodaeth a ddefnyddir i ddisgrifio'ch darn yn yr arddangosfa.

Enw

Enw Artist

Cyfeiriad

Côd Bost

Rhif ffôn

Ebost

Ble fedra'r cyhoedd weld eich celf ar-lein?
(Facebook, Twitter, Instagram, Website)

Ydych chi'n 15-25 oed?

Ydw

Nac ydw

Rwyf wedi talu'r ffi mynediad ganlynol
(Ticiwch y blwch priodol)

Cyfradd lawn £15

Cyfradd consesiwn £10

Darperir Geirda Personol fel prawf o daliad

Mae pedwar categori sy'n gymwys ar gyfer cyfradd gonsesiwn:
(Ticiwch y blwch priodol)

Yr wyf yn derbyn Credyd Cynhwysol

Ydw

Nac ydw

Rwy'n derbyn Credyd Pensiwn Cynhwysol

Ydw

Nac ydw

Rwy'n fyfyrwr

Ydw

Nac ydw

Rwy'n dan 18 mlwydd oed

Ydw

Nac ydw

Nodyn: Bydd angen tystiolaeth wrth adneuo gwaith

Rwy'n ymgeisio ar gyfer Arddangosfa Agored Wrecsam 2018 ac rwy'n cytuno â'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm ac rwy'n cytuno i dalu'r ffi mynediad mewn £ punoedd (GBP) yn unol â'r telerau a'r amodau hynny.

Dyddiad

GWAITH 1

Enw	<input type="text"/>
Enw Artist	<input type="text"/>
Teit	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text"/>
Cyfrwng	<input type="text"/>
Maint mewn cm	<input type="text"/>
Hyd - os yw'n berthnasol	<input type="text"/>
Pris gwerthu yn £ GBP Sterling	<input type="text"/>
Nodiadau gosod	<input type="text"/>

Mae'r canlynol yn berthnasol os yw'r gwaith hwn yn ffilm:

Hyd	<input type="text"/>
Linc I weld y ffilm ar lwyfan/gwefan hygyrch	<input type="text"/>

GWAITH 2

Enw	<input type="text"/>
Enw Artist	<input type="text"/>
Teit	<input type="text"/>
Dyddiad	<input type="text"/>

Cyfrwng

Maint mewn cm

Hyd - os yw'n berthnasol

Pris gwerthu yn £ GBP Sterling

Nodiadau gosod

Mae'r canlynol yn berthnasol os yw'r gwaith hwn yn ffilm:

Hyd

Linc I weld y ffilm ar lwyfan/gwefan hygyrch

GWAITH 3

Enw

Enw Artist

Teit

Dyddiad

Cyfrwng

Maint mewn cm

Hyd - os yw'n berthnasol

Pris gwerthu yn £ GBP Sterling

Nodiadau gosod

Mae'r canlynol yn berthnasol os yw'r gwaith hwn yn ffilm:

Hyd

Linc I weld y ffilm
ar lwyfan/gwefan
hygyrch

Rhowch ddatganiad ysgrifenedig am eich gwaith (hyd at 100 o eiriau).

Os oes gan eich gwaith elfen o ymarfer sy'n ymwneud â chymdeithas, rhowch grynodedb o 500 gair o'ch prosiect:

Os oes gan eich gwaith elfen o ymgysylltiad cymdeithasol, fe allwch gynnwys atodiad ychwanegol ar ffurf ffeil geiriau neu PDF o ddim mwy na phum tudalen o hyd, i gefnogi'ch delweddau.

Amodau Cystadlu

Beth ydy Arddangosfa Agored Wreccsam?

Yn ystod yr hydref 2018 bydd cystadleuaeth gelf agored fwyaf blaenllaw Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael ei chynnal unwaith eto. Rydym yn awr yn gwahodd ceisiadau gan artistiaid o unrhyw gefndir sy'n gweithio ar bob lefel ar draws y DU a thu hwnt.

Mae Cystadleuaeth Gelf Agored 2018 yn bartneriaeth rhwng Tŷ Pawb ac Undegun.

Mae Tŷ Pawb yn oriel fawr ar gyfer celfyddydau cyfoes, mae'n adnodd cymunedol diwylliannol sydd yn dod â'r celfyddydau a'r marchnadoedd ynghyd yn yr un lle. Mae Tŷ Pawb yn cyflwyno rhaglen gyfoes o arddangosfeydd cynhwysol a chroesawgar, prosiectau sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol a pherfformiadau byw.

Mae Undegun, sydd wedi ei leoli yn hen siop JJB Sports yn Wreccsam, yn gartref i gymuned ddeinamig o artistiaid a phobl greadigol, gan ddarparu amrywiaeth eang o stiwdios, cyfleusterau a gofod arddangos. Mae gan Undegun enw da sydd yn tyfu am arddangos talent newydd ochr yn ochr ag arddangosfeydd rhyngwladol yn cynnwys artistiaid o'r Ffindir, Unol Daleithiau America, Taiwan a'r Almaen.

Bydd yr arddangosfa i'w gweld mewn amrywiaeth o leoliadau yng nghanol Wreccsam ar yr un pryd.

Pryd mae'n digwydd?

Caiff Arddangosfa Agored Wreccsam ei lansio ddydd Gwener 12 Hydref 2018, rhwng 6 a 8pm, a bydd enillwyr y gwobrau'n cael eu cyhoeddi yn ystod y noson.

Dylai'r rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno perfformiad ar gyfer y Gystadleuaeth Agored fod ar gael ar gyfer digwyddiad perfformiadau arbennig ddydd Sadwrn, 13 Hydref 2018.

Bydd enillydd Gwobr y Bobl yn cael ei gyhoeddi ddydd Sadwrn 15 Rhagfyr 2018
Bydd yr arddangosfa'n cau ddydd Sul 16 Rhagfyr 2018.

Beth ydy'r Gwobrau?

Mae'r gwobrau canlynol yn cyd-fynd â'r arddangosfa:

- Gwobr am ymarfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, £1,000
- Gwobr y Beirniaid, £1,000
- Gwobr Cyfrwng Lens, £500
- Gwobr Person Ifanc, £500
- Gwobr y Bobl, £250

Yn ogystal â'r uchod, fe allai'r Beirniaid benderfynu cynnig arddangosfa i un enillydd.

Panel Beirniadu

Bydd y gwobrau'n cael eu dyfarnu gan y beirniaid canlynol:

- **Thomas Dukes, Curadur Open Eye Gallery, Lerpwl**

Thomas Dukes yw'r Curadur yn Oriol Open Eye yn Lerpwl, sefydliad blaenllaw'r Gogledd-orllewin sy'n ymroddedig i ddatblygiad, ymchwil ac ysbrydoliaeth ffotograffig. Mae Oriol Open Eye yn gweithio gyda phobl i ddatblygu'r cyfleoedd a'r syniadau o ran sut y gall ffotograffiaeth arwain at ddyfodol mwy cadarnhaol i bawb, ar ôl datblygu rhwydwaith ar gyfer ymarferwyr ffotograffig sy'n ymwneud â'r gymdeithas.

- **Rabab Ghazoul, Artist a Chyd-gyfarwyddwr Sefydol Gentle/Radical, Caerdydd**

Mae Ghazoul yn artist gweledol a aned yn Irac, ond sydd bellach yn seiliedig yng Nghaerdydd. Dechreuodd Rabab trwy wneud theatr arbrofol cyn newid i ymarfer sydd bellach yn cynnwys fideo, perfformiad, testun a gosodiad ac yn aml mae hi'n archwilio'r elfen wleidyddol yn ei gwaith.

- **Simon Job, Artist ac Enillydd Gwobr Agored Wrecsam 2017**

'mae fy ymarfer stiwdio yn cylchdroi o amgylchedd y berthynas rhwng amgylcheddau, deunyddiau a gwneud marciau, yn gydwybodol ac yn anymwybodol... Mae ffotograffiaeth bob amser yn chwarae rhan ganolog yn fy nghyfrwng gwaith... Fy nod yn y pen draw yw dadorchuddio rhywbeth llai cyffyrddadwy am fy nhestun'.

Faint ydy cost arddangos?

Y ffi am gystadlu yw £15 fesul artist, yn cynnwys TAW (gyda ffi rhatach o £10 yn cynnwys TAW ar gyfer y digyflog). Caniateir i bob artist gyflwyno uchafswm o dri darn o waith. Os ydych yn cymryd rhan am y pris rhatach o £10 bydd angen prawf adnabod wrth i chi gyflwyno eich gwaith. Ni fydd y ffi yn cael ei ad-dalu.

Pryd ga i wneud cais?

Mae'r arddangosfa ar agor i bob artist sy'n gweithio mewn unrhyw gyfrwng neu fformat. Nid oes unrhyw gyfyngiadau daearyddol nac oedran. Gall artistiaid gyflwyno hyd at dri darn o waith. Dylai'r gwaith fod wedi ei gwblhau gan yr artist ei hun yn ystod y tair blynedd ddiwethaf a dylai fod ar gael i'w arddangos o ddydd Gwener 28 Medi 2018 ymlaen.

Pryd alla i wneud cais?

Gellir cyflwyno ceisiadau rŵan, drwy'r ddolen ar y wefan hon. Rydym yn derbyn ceisiadau hyd at hanner nos, nos Sul 16 Medi 2018. Byddwn yn rhoi gwybod i chi a yw eich gwaith chi wedi cael ei ddewis ai peidio erbyn dydd Iau, 27 Medi 2018.

Beth yw'r broses ymgeisio?

Os hoffech gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Gelf Agored Wrecsam 2018, dyma'r broses i'w dilyn:

1. Cliciwch ar y botwm 'cyflwyno cais/submit entry' ar y wefan hon. Bydd hyn yn mynd a chi i borth talu diogel.
2. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin i dalu ar-lein a bydd derbynneb yn cael ei hanfon atoch ar e-bost.
3. Wedi hynny byddwch yn cael cyfeirnod unigryw. Gwnewch nodyn ohono.
4. Cliciwch ar y botwm 'ffurflen gais/application form' ar y wefan hon.
5. Lawrlwythwch y ffurflen gais fel ffeil PDF.
6. Nodwch eich cyfeirnod unigryw yn y man priodol ar y ffurflen gais.
7. Llenwch y ffurflen a'i hanfon drwy e-bost, gyda'ch lluniau at: applications@wrexhamopen.com
8. Rhowch eich enw, llythrennau blaen eich enw a'ch cyfeirnod unigryw gyferbyn â'r 'pwnc' yn yr e-bost.
9. Argraffwch gopi o'r Ffurflen Gais a dewch â hi gyda chi pan fyddwch yn dod a'ch gwaith atom.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: hanner nos, 16 Medi 2018

Y broses o gyflwyno ceisiadau drwy e-bost

- Ni ddylai ffeiliau delweddau fod yn fwy nag 1MB, dylent fod yn 300dpi ac ar ffurf JPG
- Gellir cynnwys delwedd sengl ar gyfer pob darn a gyflwynir, hyd at uchafswm o dri gwaith celf.
- Os oes gan eich gwaith elfen o ymgysylltiad cymdeithasol, fe allwch gynnwys atodiad ychwanegol ar ffurf ffeil geiriau neu PDF o ddim mwy na phum tudalen o hyd, i gefnogi'ch delweddau.
- Anfonwch dim mwy na phum atodiad gyda'ch e-bost.
- Os ydych chi'n cyflwyno ffilm, dylech gynnwys dolen i lwyfan hygyrch.
- Anfonwch un e-bost yn unig.
- Cofiwch atodi eich Ffurflen Gais at un ohonynt.
- Ysgrifennwch eich enw a'ch cyfeirnod unigryw ym mlwch pwnc yr e-bost.

- Dewch a'ch rhif cyfeirnod unigryw pan fyddwch chi'n gadael eich gwaith celf hefo ni.
- Ni fydd y trefnwyr yn mynd i mewn i ddelio ag unrhyw drydydd partïon, megis orielau masnachol neu gynrychiolwyr artistiaid.
- Ni fydd gweithiau 2D mewn fframiau clip yn cael ei dderbyn.

Anfonwch eich e-bost at: **applications@wrexhamopen.com**

Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich cais ar-lein, byddwn yn cynnal sesiynau cefnogi yn Undegun ar y dyddiau canlynol:

- dydd Mercher 5 Medi, rhwng 1pm a 3pm.
- dydd Sadwrn 8 Medi, rhwng 10am a 12hd

Os na allwch ddod i un o'r sesiynau hyn ond bod arnoch angen cymorth, rhowch wybod i ni ac fe wnawn ein gorau i drefnu help ar eich cyfer.

Pryd ga i adael fy ngwaith gyda chi?

Bydd Tŷ Pawb ar agor i chi ddod a'ch gwaith atom ar y dyddiau canlynol:

- Dydd Gwener, 28 Medi 2018, rhwng 10am a 5pm
- Dydd Sadwrn, 29 Medi 2018, rhwng 10am a 5pm

Gofalwch eich bod wedi rhoi label ar du ôl eich gwaith gyda'i deitl, eich enw chi a'ch manylion cyswllt cyn i chi ei adael.

Sut ddylwn i baratoi fy ngwaith?

Fe ddylai eich gwaith fod wedi'i gwblhau ac yn barod i'w arddangos neu'i osod. Cofiwch gynnwys unrhyw glipliau drych neu ddyfeisiau eraill, fel y gellir rhoi'r gwaith yn ei le ar unwaith. Ar gyfer gwaith sydd angen gwaith mwy technegol i'w osod, rhowch fanylion cynhwysfawr ynglŷn â sut yr hoffech i'r gwaith ymddangos; mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd gofyn i artistiaid osod eu gwaith eu hunain yn ei le.

Gwnewch yn siwr bod y wybodaeth rydych yn ei chynnwys gyda'ch ffurflen yn fanwl gywir a chyflawn, gan mai dyma'r wybodaeth gaiff ei defnyddio i ddisgrifio eich darn o waith yn yr arddangosfa.

Hawlfraint Delweddau

Drwy gyflwyno'r Ffurflen Gais rydych yn rhoi caniatâd i ni ddefnyddio delweddau o'ch gwaith i ddibenion cyhoedduswydd ar-lein ac mewn print. Efallai hefyd y byddwn yn defnyddio'r delweddau hyn ar wefannau Tŷ Pawb a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

(CBSC) ac unrhyw dudalennau Facebook, Twitter, Instagram, Pinterest neu Flogiau cysylltiedig. Eiddo'r artist fydd yr hawlfraint o hyd.

Gwerthu gweithiau celf

Rydym yn annog artistiaid i werthu eu gwaith. A wnewch chi nodi ar y ffurflen gais a yw eich gwaith ar werth ai peidio. Bydd comisiwn o 30% + TAW yn cael ei dynnu o bris waith sy'n cael ei werth. Wrth brisio eich gwaith felly cofiwch am y comisiwn a fydd yn daladwy os ydych yn ei werthu a rhowch bris sy'n adlewyrchu hynny yn y ffurflen gais mewn £Sterling (GBP).

Yswiriant ac atebolrwydd

Bydd artistiaid yn arddangos eu gwaith ar eu menter eu hunain. Ni fydd y trefnwyr yn gyfrifol am yswirio'r gwaith wrth iddo gael ei gludo i'r arddangosfa nac yn ystod yr arddangosfa. Er y bydd staff yn gwneud eu gorau i drin gwaith gyda'r gofal mwyaf, ni fydd y trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw ddifrod neu golledion sy'n digwydd pan fydd gwaith yn cael ei gludo, ei drin neu ei osod. Mae'r trefnwyr yn neilltuo'r hawl i beidio ag arddangos gwaith y credir ei fod yn beryglus neu'n dramgwyddus.

Dychwelyd Gwaith

Bydd yr holl weithiau celf ar gael i'w casglu o Dŷ Pawb ar y dyddiau canlynol:

- dydd Iau 20 Rhagfyr 2018, rhwng 10am a 5pm
- dydd Gwener 21 Rhagfyr 2018, rhwng 10am a 5pm

Nodwch os gwelwch yn dda: bydd gwaith nad yw'n cael ei gasglu ar un o'r dyddiau hyn, heb ganiatâd ymlaen llawn, yn cael ei waredu.

Gwybodaeth bellach

Rydym yn diffinio 'ymarfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol' fel 'cyfrwng celf sy'n canolbwyntio ar ymgysylltiad drwy ryngweithio dynol a sgysiau cymdeithasol'. Nod celf sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol yw creu newid cymdeithasol a/neu wleidyddol drwy gydweithio ag unigolion i greu celf gyfranogol. Enghraifft ddiweddar amlwg yw'r prosiect *Granby Four Streets* gan Assemble, a enillodd y Gwobr Turner 2015.

<https://www.tate.org.uk/whats-on/other-venue/exhibition/turner-prize-2015/turner-prize-2015-artists-assemble>

Dim ond gan y trefnwyr mewn perthynas â'r arddangosfa hon y defnyddir eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth arall a rowch, ac ni fyddant yn cael eu rhannu gydag unrhyw un.

O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu unrhyw ddata a gyflwynir gennych.

Gellir cadw'r wybodaeth hon ar ffeiliau ysgrifenedig neu ar gyfrifiadur ac fe'i defnyddir i gyflwyno gwasanaethau'r Cyngor. Dim ond y wybodaeth leiaf a ofynnir amdani a'i chadw, a chaiff ei chadw dim ond tra bo'i hangen.

Caiff gwybodaeth a gesglir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei storio a'i phrosesu mewn databasau ym meddiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn unig.

Ni fyddwn yn rhoi eich gwybodaeth bersonol chi, a geir trwy gyfrwng y wefan, i gwmnïau eraill nac i unigolion oni ofynnir am hynny dan y gyfraith.

Unrhyw gwestiynau?

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Anders Pleass, Cydlynnydd Cystadleuaeth Gelf Agored Wrecsam 2018:
anders@wrexhamopen.com

Amserlen

Ceisiadau ar agor:	15 Awst 2018
Gweithdy cais:	5 Medi 2018, 1 – 3yh
Gweithdy cais:	8 Medi 2018, 10yb – 12hanner dydd
Dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau:	16 Medi 2018, hanner nos
Y broses ddethol:	21 – 22 Medi 2018
Artistiaid wedi eu hysbysu o'r canlyniad:	26 Medi 2018
Gwaith celf yn barod i'w gyflwyno gan:	27 Medi 2018
Cyflwyno gwaith celf:	28 / 29 Medi 2018, 10am – 5yh
Gosod arddangosfa:	1 – 11 Hydref 2018
Iansio arddangosfeydd a gwobrau:	12 Hydref 2018, 6 – 8yh
arddangosfa agored i'r cyhoedd:	13 Hydref 2018, 10am
Diwrnod y digwyddiadau:	13 Hydref 2018, amseriadau i'w cadarnhau
Digwyddiad gwobr y bobl:	15 Rhagfyr 2018, amser i'w gadarnhau
Arddangosfa yn cau:	16 Rhagfyr 2018, 4hy
Ewch i lawr o'r arddangosfa:	15 – 19 Rhagfyr 2018
Casgliad dychwelyd o waith celf yn ôl:	20 / 21 Rhagfyr 2018